**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

# ADRODDIAD I’R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000

**Y Cefndir**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol (o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995) adolygu ansawdd yr aer yn eu hardaloedd.

Mae adran 87(1) o'r Ddeddf yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud Rheoliadau mewn perthynas ag asesu neu reoli ansawdd yr aer yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi amcanion ansawdd aer penodol sydd i'w cyrraedd yn y dyfodol (hyd at 2003) o fewn "cyfnod perthnasol" a ddiffinnir. Rhaid i'r asesiadau hyn fynd gyda'r adolygiadau a wneir gan yr Awdurdod Lleol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan fod Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor wedi cael cyfle cynnar i ystyried y Rheoliadau hyn nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylw Cyffredinol**

Ymhellach, nid oes unrhyw sylwadau ar wahân i ddweud y bydd y troednodiadau'n ymddangos ar y tudalennau cywir yn y fersiwn brintiedig.

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**9 Mehefin 2000**

Ein Cyf: LAD 01-01-126